# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 27.07.22 am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Keith Carroll – Cadeirydd (KC), Huw Davies (HD), Nicola Tabberer (NT), Geraint Micah (GM), Jenny Warne (JW), Geraint Edwards (GE), David Griffiths (DG), Debbie Taylor-Bond – Clerc (DTB), Howard Bevington – y clerc newydd (HB), Louise Hughes – Cynghorydd Sirol (LH).

**Ymddiheuriadau:** Jane Lawrence (JL), Francesca Pridding (FP), Ian Williams (IW).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
   Hysbysodd y Cadeirydd y grŵp am newid enw'r Cynghorydd Nicola Tabberer i **Nicola Roberts.**
   Gofynnodd y Cadeirydd am newid i'r agenda, i drafod penodi clerc newydd.

   **Gofynnwyd i aelodau o'r cyhoedd adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth hon.**
   Hysbysodd y Cadeirydd y grŵp o ganlyniad y broses gyfweld ddiweddar ar gyfer y Clerc a Swyddog Ariannol Cyngor Cymuned Llangelynnin. Derbyniwyd dau ymgeisydd. Cynigiwyd y swydd i Howard Bevington.
   **Cynnig**: Keith Carroll **Eilio:** Huw Davies. Cyflwynwyd y clerc newydd i'r Cynghorwyr.
   **Gofynnwyd i aelodau o'r cyhoedd ail-ymuno â'r cyfarfod.**

2. **Cofrestru diddordeb** (os yn gwybod ar y pryd) - Dim wedi eu nodi ar hyn o bryd.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 08.06.22, a chyfarfod ychwanegol a gynhaliwyd ar y 11.07.22 fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Huw Davies **Eilio –** Geraint Edwards **Arwyddwyd –** Keith Carroll.

4. **Cyflwyniad gan Network Rail ar Gynnal eu Waliau Terfyn Friog/Llwyngwril**
   Ymunodd Simon Roberts â'r cyfarfod drwy Zoom. Cwblhawyd ymchwiliadau tir yn ddiweddar. Bydd rhywfaint o waith dros dro yn cael ei wneud yn ystod yr wythnosau nesaf. Goleuadau traffig dros dro i'w defnyddio lle bo modd. Mae cynllun parhaol yn cael ei ddylunio ac mae contractwr wedi'i benodi. Yn dilyn y gwaith dylunio ceisir cyllid a chymeradwyir y cynllun. Mae'n debygol, os bydd cyllid yn cael ei sicrhau, bydd y gwaith ar gyfer y cynllun parhaol yn dechrau yn 2023 – chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Diweddariadau pellach i'w darparu.

   **Gwahoddiad i'r cyfarfod gyda Phrif Weithredwr Cyngor Gwynedd ar 19.09.22 am 3 o'r gloch y prynhawn.**
   **I'w weithredu gan → Clerc a Louise Hughes**

5. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (08.06.22 a 11.07.22):**

**a) Cyfathrebu –** diweddariad ar dudalen Facebook newydd ar gyfer y Cyngor Cymuned. Rhoddodd DG ddiweddariad a gofynnodd os oedd pawb yn hapus i ddod a copiau i'r cyfarfod. Bydd yn rhaid i'r Pwyllgor gytuno ar unrhyw beth sy'n mynd ar Facebook. Ni fydd aelodau'r cyhoedd yn gallu gwneud sylwadau ond mae dolen ar y wefan i anfon e-bost at y Clerc.
DG i ddod â mwy o wybodaeth i gyfarfod Mis Medi.

**b) Priffyrdd** - cynnig cyffredinol i ofyn i'r Adran Briffyrdd wneud archwiliad flynyddol or pentref gyda rhai o'r aelodau. Darparodd GE a KC ddiweddariad ar yr archwiliad eleni (cerdded o amgylch Llwyngwril gydag Adrian Williams, CG)

- Arwyddion wedi eu codi yn y pentref.
- Llwybrau wedi codi gyda gwreiddiau coed – bydd y gwaith cynnal a chadw yn cael ei rhoi ar amserlen waith yr adran.
- Mae angen marcio'r Maes Parcio a bydd AW yn ceisio datblygu hyn.
- Chwyn drwy'r pentref – cytundebau yn hwyr eleni – unwaith y bydd y chwyn wedi marw bydd y rhain yn cael eu tynnu.
- Bydd AW hefyd yn delio a lefel uchel o chwyn a gordyfiant i'r ffordd/palmant.
- Llinellau melyn dwbl ger y Cae Chwarae a gyferbyn â'r Siop. Mae wedi bod yn fwy na 12 mis, cadarnhaodd y byddai yn edrych i mewn i'r sefyllfa.
- Mynedfa ffordd i'r orsaf – er diogelwch mae angen rhoi blaenoriaeth i'r orsaf, felly bydd AW yn edrych ar hyn - i'w drafod.
- Trefnu gwaith chwistrellir chwyn yn Roslefain.

**c) Cynrychiolaeth ar Fwrdd y Llywodraethwyr yr Ysgol Newydd.** Mae'r ysgol yn bendant nad ydynt eisiau cynrychiolwyr sydd â phlant yn yr ysgol. Maen nhw eisiau cynrychiolydd cymunedol. Mae'r cynnig wedi'i wrthod. A allwn ofyn am restr o Lywodraethwyr i weld pwy y maent yn ei gynrychioli? **I'w weithredu gan HB – Clerc**.

**d) Rheoliadau a chyngor ar ddefnyddio Zoom** – Deddfwriaeth newydd ers Mis Mai 2022 ar ddefnyddio Mynediad i Gyfarfodydd. Cefnogodd y Cadeirydd y defnydd o Zoom mewn cyfarfodydd. Trafodwyd buddsoddi mewn technoleg newydd i gefnogi hyn. Gallwn brydlesu offer cyfrifiadurol – gliniadur a chamera. Cost o £23.82 y mis. £285.00 y flwyddyn am y gliniadur a'r camera. I brynu'n gyfan gwbl £495.00. Holi Cyngor Cymuned Corris/Jeff Jenkins am fanyleb addas. Is-bwyllgor i ymchwilioi hyn yn barod ar gyfer Mis Medi a phrydlesu neu i brynu.
**I'w weithredu gan - Aelodau'r Is-bwyllgor: Keith Carroll / Nikki Roberts / Huw Davies.**

**e) Archwilio ac adnewyddu'r Meinciau** – diweddariad yr is-bwyllgor. Tynnu mainc ddur o Roslefain a'i rhoi ger y traeth. Mae'r fainc blastig newydd wedi'i gosod. 'Rydym wedi tynnu un fainc ger y "grin" ac mae angen prynu'r pren a'u hailosod ar un fainc. Mae angen concrid ar y sylfaen. Wedi golchi'r safle bws yn Rhoslefain.
**Cynnig**: Geraint Edwards **Eilio:** Jenny Warne.

6. **Gohebiaeth:**

   **a) A493 ger Bryncoch, Arthog.** Fordd ar gau am y pythefnos cyntaf ym mis Hydref 2022.
   Mae LH wedi derbyn llawer o alwadau ynglyn a hyn. Mae'r ffordd ger morfa Arthog wedi suddo.
   Defnyddir rhwyll yma fel datrysiad parhaol. Mae'r anghyfleustra i'r cyhoedd wedi eu nodi.
   Bydd y Bont y Bermo hefyd ar gau ym Mis Hydref felly efallai y bydd yn rhaid newid y trefniant yma.

   **b) Ymgynghoriad - "Treth Gyngor Decach"** - 12.07.22 hyd at 04.10.22.

   **c) Gweithredu diwydiannol Trafnidiaeth Cymru** – 27.07.22 a 30.07.22.

7. **Materion Cynllunio**:

   **a) Cais: NP5/69/L243B** - "Church Room", Llwyngwril – Newid defnydd
   Amrywio Amod Rhifau 2 a 3 o Ganiatâd Cynllunio NP5/69/L243A dyddiedig 24/03/2010 i ganiatáu meddiannaeth barhaol o 1 uned gwyliau
   → dim gwrthwynebiad/sylwadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

   **b) Cais: NP5/69/405B** - Tŷ Lafant, Llwyngwril, LL37 2JG
   Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio NP5/69/405 dyddiedig 03/08/2020 i ail-leoli dormer brig (Derbyniwyd 11/7/2022 gyda thrawsnewidiad 14 diwrnod).
   Cysylltu Cynllunio i wneud cyflwyniadau am amserlenni – dim gwrthwynebiad/sylwadau.

   **c) Cais: NP5/69/348C** - Tir ger Machlud Haul, Llwyngwril, LL37 2JQ
   Diwygio Amod 2 o gais **NP5/69/348A** (codi tŷ) i gyfraddau ar gyfer ailddatblygu –
   Dim gwrthwynebiad/sylwadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

8. **Adroddiad Ariannol gan gynnwys cymeradwyo Archwilio Mewnol**

   **a) Archwiliad mewnol wedi'i gyflwyno i'r Cyngor. Cafodd hwn ei gymeradwyo a'i lofnodi.**

   **b) Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol Mis Mehefin i'r aelodau.**
   **Cynnig –** Huw Davies **Eilio –** David Griffiths **Arwyddwyd** – Keith Carroll.

**i) Balans Mewn Llaw ar 01.05.22 i 30.06.22 - HSBC**

Cyfrif Cyfredol ……………………………………………………………………………… **£11,938.49**
**Derbyniadau**:
Ffurflen TAW ar gyfer 2021/22 ………………………………………………………… £358.00
**Taliadau**:
Siec 100828 Arian wedi'i symud i gyfrif newydd Nat West …………………… £11,300.00
Taliadau Banc hyd at 29.04.22…………………………………………………………… £5.00
Costau banc hyd at 30.05.22 …………………………………………………………… £5.40

- **Balans Mewn Llaw yn unol â Datganiad Banc ar 30.06.22 ……………… £ 986.09**

**ii) Balans Mewn Llaw ar 20.05.22 i 21.06.22 - Cyfrif Nat West**

Cyfrif Cyfredol ………………… ……………………………………………………………… **£14,931.64**

**Derbyniadau:** Dim

**Taliadau:**

Rhif siec 00009…….. Offer Newydd y cae chwarae ………………………………… £2,400.00
Rhif siec 00002 …….. Cyflog y Clerc …………………………………………………… £1,332.62
Siec rhif 00006…….. Rent y Ganolfan ………………………………………………… £100.00

Balans Mewn Llaw yn unol â Datganiad Banc ar 20.5.22 ……………………… £11,099.02

**Llai – arian wedi'i neilltuo ar gyfer cynnal a chadw'r Cae Chwarae** ……….. £ 960.00
**Llai** - Rhodd ar gyfer offer Newydd yn y cae chwarae …………………………. £2,000.00
(£2,000 wedi'i dalu ym Mis Mehefin sy'n gadael £2,000 ar ôl i'w dalu)

- **Balans Mewn Llaw yn unol â'r Datganiad Banc ar 30.06.22 …………… £8,139.02**

**c) Cau Cyfrif HSBC a diwygio'r Mandate ar gyfer Cyfrif Banc Nat West.**

Cytunwyd ar yr angen i gau cyfrif HSBC. Mae angen newid y mandate ar gyfer Cyfrif Nat West. Aelodau newydd i'w cynnwys ar y mandate IW, KC a DG. Clerc newydd i'w gynnwys ar mandate Nat West.
**Cynnig**: Huw Davies **Eilio:** Geraint Edwards. **I'w weithredu gan → Clerc**.

**9. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:**

Cyfarfod diwethaf "Ymddiriedolwyr Pwyllgor y Ganolfan" - GE
Cododd GE y mater fod "cais am gyfleusterau newid" wedi cael ei dderbyn. Adroddodd fod hyn wedi cael ei drafod a bod adolygiad wedi'w gynnal. Fodd bynnag, nid oes digon o le yn bresennol i ddarparu'r cyfleuster hwn, gan fod y lle yn gyfyngedig iawn yno.

**10. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Adroddiad gan Louise Hughes.

**11. Unrhyw Fater Arall:**

**a)** Caisiadau am safle bws ger y "Grîn", a "chyfleuster croesi ffordd" ger hen ysgol Llwyngwril wedi eu derbyn gan rieni. Gofyn i Adran Briffyrdd, Cyngor Gwynedd. **I'w weithredu gan → Clerc HB**

**b)** Lori wedi taro polyn ffôn yn Rhoslefain. Dim signal ar gyfer y gwasanaeth brys a ffôn symudol yn yr ardal yma. Ymholiadau i gael eu gwneud hefo Cyngor Gwynedd a'r Heddlu. **I'w weithredu gan → Louise Hughes.**

**c)** Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i Debbie Taylor-Bond am ei gwaith fel clerc i'r Cyngor Cymuned. Cadarnhawyd mai dyddiad cychwyn y clerc newydd oedd **27/7/2022**. Trefniadau trosglwyddo i ddechrau rwan.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 14.09.22 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwril

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………………**